## Tasg 1

# Annwyl ddyddiadur …

1. Pam mae John, y person sydd wedi ysgrifennu'r dyddiadur, yn defnyddio'r ymadrodd "diddrwg didda" i ddisgrifio'r flwyddyn, tybed?

   Rhowch ddau reswm i gefnogi'ch ateb.

   Cymharwch eich syniadau chi gyda syniadau'ch partner chi.

2. Mae John yn dweud:

   > Dw i wedi penderfynu beth dw i eisiau ei wneud ar ôl gadael yr ysgol!

   Beth mae John wedi ei benderfynu, tybed? Rhowch ddau reswm i gefnogi'ch ateb.

3. Mae John yn dweud:

   > Yn y clwb carate, dw i wedi symud ymlaen o'r gwregys gwyn i'r gwregys oren. Cyn bo hir, bydda i'n gweithio tuag at y gwregys glas a gwyrdd. Dw i'n benderfynol o ennill y gwregys du un diwrnod.

   Chwiliwch am ystyr y gwregysau lliw mewn carate.
   Gwnewch nodiadau.
   Rhannwch y wybodaeth mewn grŵp.

4. Argraffwch y dyddiadur sydd ar y brif sgrin a'r dyddiadur oedd yn rhifyn mis Ionawr.
   a. Beth oedd addunedau John ym mis Ionawr?
   b. Pa addunedau mae e wedi llwyddo i'w cadw?
   c. Ydy bywyd wedi troi allan fel roedd e'n dymuno ar ddechrau'r flwyddyn? Rhowch resymau i gefnogi'ch ateb chi.

5. Beth amdanoch chi? Ydy'ch bywyd chi wedi troi allan fel roeddech chi'n dymuno ar ddechrau'r flwyddyn? Rhowch resymau i gefnogi'ch ateb.

6. Ysgrifennwch ddyddiadur yn edrych yn ôl dros y flwyddyn.
   Dywedwch:
   - beth sydd wedi digwydd
   - sut rydych chi'n teimlo.